# DAVIES, TIMOTHY (1802 - 1862), offeiriad a phregethwr

**Enw:** Timothy Davies
**Dyddiad geni:** 1802
**Dyddiad marw:** 1862
**Rhiant:** D. Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad a phregethwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Williams James

Ganwyd 1802, mab D. Davies, curad Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Caerfyrddin o dan Hancock a D. A. Williams, canghellor Tyddewi wedi hynny. (Yr oedd ysgol ramadeg Caerfyrddin yn un o'r pedair ysgol ramadeg yn esgobaeth Tyddewi a drwyddedwyd gan yr esgob Burgess i addysgu rhai'n mynd am urddau eglwysig heb fedru mynd i brifysgol). Fe'i hordeiniwyd yn 1825 yn gurad Ystrad-gynlais, yn 1826 daeth yn gurad-parhaol Capel Coelbren, yn 1836 yn rheithor Ystradgynlais a ficer Defynnog. Priododd, 1840, Sarah, merch David Rees, Llanymddyfri. Bu hi farw yn 1858, gan adael pump o blant; bu ei g r farw, 25 Mawrth 1862. Yr oedd yn enwog fel pregethwr.

## Awdur

**Y Canghellor John Williams James**

## Ffynonellau


*Yr Haul*, 1862, 156-8

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734543

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu